**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
**—**
**Economy, Trade and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
**—**
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
https://senedd.cymru/pwyllgorau/pwyllgor-yr-economi-masnach-a-materion-gwledig/
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

04 Ebrill 2024

Annwyl Huw

Hoffwn eich llongyfarch ar eich penodiad yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Er eich bod eisoes yn gyfarwydd â rhywfaint o waith y Pwyllgor sy'n dod o fewn eich portffolio, roeddwn eisiau rhoi diweddariad i chi ar y gwaith materion gwledig rydyn ni wedi'i wneud yn ddiweddar, ac sydd wedi'i gynllunio.

Ar 22 Chwefror 2024, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd byr i Cyswllt Ffermio yn canolbwyntio ar barodrwydd a chapasiti Cyswllt Ffermio i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol sy'n ofynnol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ogystal â chefnogi ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio.

Yn ystod tymor yr haf, bydd y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at glywed gennych yn ein cyfarfod ar 13 Mehefin 2024. Bydd hyn yn cynnwys dwy sesiwn - sesiwn gyffredinol fydd y gyntaf, yn gyfle i nodi eich blaenoriaethau a myfyrio ar agosáu at eich can diwrnod cyntaf fel Ysgrifennydd y Cabinet, a bydd yr ail sesiwn yn canolbwyntio ar ein hymchwiliad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen yn fawr at ymgysylltu â chi yn eich rôl newydd.

Cofion cynnes

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

We welcome correspondence in Welsh or English

Senedd Cymru
Welsh Parliament